

### *Patrwm cyflwyno O fis Tachwedd i fis Ebrill*

#### *Disgrifiad o'r modiwl*

Mae'r modiwl dwys iawn hwn sy'n seiliedig ar ymchwil, ac sy'n ymestyn dros gyfnod o chwe mis, yn gofyn i fyfyrwyr gynllunio, cynnal, dadansoddi a chyflwyno adroddiad ar brosiect ymchwil. Byddant yn gweithredu fel 'ymchwilydd gwybodus', yn cynnal gwaith ymchwil mewn cyd-destun sy'n gyfarwydd iddynt eisoes (mewn sefydliad sy'n gyfarwydd iddynt yn ôl pob tebyg). Fodd bynnag, bydd disgwyl iddynt gymhwyso deunydd cysyniadol, damcaniaethol a methodolegol perthnasol, a chynllunio, cynnal a dadansoddi eu gwaith ymchwil mewn modd manwl ac at safon academaidd briodol. Er ei fod yn heriol, mae'r modiwl hwn yn rhoi cyfle gwerthfawr i ymgysylltu â senario ymchwil a ddewiswyd gan y myfyriwr, a dysgu oddi wrho.

#### *Manyleb y person*

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:

- Profiad o addysgu ar lefel ôl-raddedig mewn un neu fwy o'r meysydd neu feysydd pwnc sy'n berthnasol i raglenni cyfunol MSc a T802 (ond ar wahân). Dyma nhw ar hyn o bryd: Peirianeg, Rheoli Technoleg, Meddwl am Systemau yn Ymarferol, Rheoli'r Amgylchedd, Rhwydweithio Uwch, Cyfrifiaduro, Diogelwch Gwybodaeth a Pheirianeg Fforensig Digidol a Meddalwedd. Gallech fod wedi cael eich gwybodaeth a'ch profiad mewn sector diwydiannol, cyhoeddus neu wasanaeth preifat, NGO neu gyd-destun academaidd.
- Y gallu a'r modd i weithio i derfynau amser byr a/neu ymateb yn brydlon wrth gynnis cyngor, adborth a chefnogaeth i fyfyrwyr (oherwydd natur byr ond dwys iawn prosiectau ymchwil T847).

Byddai'n fanteisiol meddu ar y canlynol:

- Profiad uniongyrchol o gynllunio ac ymgymryd â gwaith ymchwil ôl-raddedig neu waith cyfatebol.
- Profiad o weithio gyda wicis, blogiau a chymwysiadau ar-lein eraill fel adnoddau ar gyfer cydweithredu a/neu weithio mewn tîm a chyfathrebu.

*Manylion sy'n gysylltiedig â'r modiwl* – gellir dod o hyd i eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno ar gyfer aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	6
Band cyflog:	2
Oriau yr amcangyfrifir fesul wythnos addysgu:	4